YR NUT

RHIFYN ARBENNIG

Hydref 2010

Newyddion yr NUT

Yr undeb mwyaf ar gyfer athrawon
www.teachers.org.uk

Bygythiad i gyflog, pensiynau ac ariannu

Cadarnhaodd gyhoeddiad yr Adolygiad Gwariant gan y canghellor George Osborne, y bydd toriadau enbyd i wariant cyhoeddus yng Nghymru dros y bedair blynedd nesaf. Cadarnhaodd hefyd y bwriad i barhau gyda'r ymosodiad ar gyflogau a phensiynau athrawon.

Graddfa'r toriadau

Y flwyddyn nesaf fe fydd cyllid Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei dorri o £900m – ergyd aruthrol yn wir. Fe fydd toriadau pellach yn dilyn, cyfartaledd o 3.1% y flwyddyn, a chyfanswm o 12% dros gyfnod o bedair mlynedd.

Mae ariannu ysgolion bellach yn dibynnu ar gyllideb Llywodraeth y Cynulliad a gyflwynir ar 17eg o Dachwedd 2010.

Dywedodd Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, bod y cynulliad yn benderfynol o warchod buddsoddiad mewn ysgolion ac i warchod cynlluniau megis brecwast rhad ac am ddim a llaeth i blant cynradd. Mae'r Gweinidog dros Addysg wedi cadarnhau ei ymrwymiad i leihau'r bwlch y pen mewn ariannu sy'n bodoli rhwng Cymru a Lloegr. Mae hefyd eisiau sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn defnyddio eu cyllidebau yn ddoeth fel bod mwy o arian yn cael ei benodi i wasanaethau rheng flaen. Fe fydd NUT Cymru yn gweithio er mwyn gwarchod ysgolion yng Nghymru.

Gwasanaethau awdurdodau lleol dan fygythiad

Mae gwasanaethau rheng flaen addysg hanfodol eisoes yn cael eu torri. Fe fydd gwasanaethau awdurdodau lleol yn cael eu difetha gan doriadau pellach. Fe fydd ysgolion yn colli'r gwasanaethau hyn neu yn wynebu talu mwy amdanyn nhw, gan daro cyllidebau ym mhellach.

Cadarnhau'r ymosodiad ar bensiynau

Cadarnhaodd George Osborne y byddai'r ymosodiad ar bensiynau yn parhau gyda chynnydd o 3% i gyfraniadau pensiwn. Fe fydd hyn yn costio dros £40 y mis i ANG a dros £70 i'r rhai sydd ar bwynt 3 ar yr Uwch Raddfa Cyflog. Mae bygythiad y bydd rhagor o newidiadau. Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau ei bod eisiau i chi dalu mwy, gweithio'n hirach a chael llai o bensiwn. Fe fydd y toriadau hyn, law yn llaw gyda rhewi cyflogau am ddwy flynedd, yn lleihau cyflog athro yn sylweddol.

E bostiwch eich AS nawr yn www.teachers.org.uk/notocuts

Meddai Christine Blower, Ysgrifennydd Cyffredinol yr NUT:

"Fe fydd yr NUT yn brwydro'n galed er mwyn gwarchod athrawon, ysgolion a'r gwasanaeth addysg. Mae'r Llywodraeth glymblaid wedi siarad ynglŷn â diogelu ysgolion ond mae'r trefniant ariannol i Gymru yn bygwth ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae'r toriadau arfaethedig, pensiynau a chyflog yn annerbyniol."

Ein nod: un undeb ar gyfer athrawon i gyd

Ymunwch â'r NUT Mynnwch air â'ch cynrychiolydd ysgol

www.teachers.org.uk

Ffoniwch nawr i ymuno

Llinellau Brys Ymaelodi **0845 300 1669** neu **020 7380 6369**

Llinell Gymorth Manylion **0845 300 1666**

Cynlluniwyd a chyhoeddwyd gan Adran Strategaeth a Chyfathrebu yr NUT – www.teachers.org.uk Dyluniwyd gan Paragraphics – www.paragraphics.co.uk – 7091w/10/10